TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Diploma Vocational Studies - Childcare and Health and Social Care Level 1

Yn gryno

Bydd y cwrs hwn yn paratoi dysgwyr i ddilyn cwrs Lefel 2. Mae'r cwrs yn cael ei asesu'n barhaus, ac mae'n ymdrin ag amrywiaeth o unedau craidd sydd wedi'u dylunio i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a chyfathrebu, ynghyd ag unedau opsiynol mewn Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu gan ddefnyddio amrywiaeth o asesiadau. Ar hyn o bryd does dim arholiadau ynghlwm â'r cwrs.

Dyma'r cwrs i chi os...

...rydych eisiau symud ymlaen at astudiaeth bellach mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gofal Plant

...rydych eisiau datblygu sgiliau cyflogadwyedd

...rydych eisiau datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd y cymhwyster BTEC hwn yn datblygu'r wybodaeth sydd ei hangen mewn swyddi a chyfleoedd o fewn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Gofal Plant. Bydd dysgwyr yn gwneud unedau craidd ac opsiynol (10 uned i gyd).

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu cyflogadwyedd, llythrennedd a rhifedd, cyfathrebu a gweithio mewn tîm i baratoi dysgwyr i symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Byddwch yn dysgu drwy waith grwp a dysgu yn y dosbarth.

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau, gweithgareddau grwp ac unigol i gefnogi eich cynnydd a'ch dysgu.

Bydd dysgwyr hefyd yn parhau i astudio Mathemateg a Saesneg.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae'n rhaid i ddysgwyr arddangos ymrwymiad llawn (presenoldeb) i bob agwedd ar y cwrs yn cynnwys Mathemateg a Saesneg.

Byddwch angen dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc, y gallu i gymell eich hun ac angerdd tuag at y diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyfle i symud ymlaen at raglen Lefel 2. Os ydych eisiau symud ymlaen at Raglen Gofal Plant neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd angen gradd MM arnoch chi, yn ogystal ag ymgysylltiad a chynnydd mewn sgiliau (Mathemateg a Saesneg).

Gwybodaeth Ychwanegol

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol. Rhaid i ddysgwyr ddangos ymrwymiad llawn (presenoldeb) i bob agwedd ar y cwrs gan gynnwys Mathemateg a Saesneg. Parch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunan-gymhelliant ac angerdd dros y diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol.